**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 24 Ionawr 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A M Day | C L Philpott | K M Griffiths |
| S M Jones | E T Kirchner | W G Lewis |
| M Jones | | |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Michelle Davies | Pennaeth Cynllunio Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Louise Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Michelle Apthorpe | Rheolwr Hwb, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Helen Williams | Prif Swyddog, Gwasanaethau'r Glasoed a Phobl Ifanc |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Swyddogion: D Howes

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Cyflwyniad - Diweddariad ar gynnydd gyda'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Rhoddodd Michelle Davies, Pennaeth Cynllunio Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ddiweddariad am y cynnydd ac atebodd gwestiynau'r panel.

Pwyntiau Trafod:

- Gofynnodd y panel sut mae CAMHS yn cymharu ag argymhellion gwreiddiol yr Ymchwiliad Craffu a nodwyd bod argymhelliad yr ymchwiliad i gyflwyno Cwm Taf yn fewnol bellach yn cael ei ddilyn. Roedd yr ymchwiliad wedi codi'r mater o bontio rhwng plant ac oedolion a sut roedd plant yn teimlo bod ganddynt fynediad at CAMHS un diwrnod, ond unwaith eu bod yn troi'n 18 oed, doedd y gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt ddim ar gael. Clywodd y Panel mai dyma un o'r prif feysydd y mae CAMHS wedi bod yn ei archwilio ond mae angen gwneud mwy yn ei gylch, ac maent yn meddwl y bydd trosglwyddo CAMHS yn ôl i Fae Abertawe yn un o'r sbardunau allweddol ar gyfer hyn. Mae CAMHS hefyd yn bwriadu recriwtio nyrs pontio ac mae ganddynt bolisi pontio rhanbarthol newydd. Mae'r ymchwiliad hefyd wedi codi'r mater nad oedd unrhyw ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ac nad oeddent yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed gan CAMHS. Clywodd y Panel fod nyrs CAMHS ranbarthol ddynodedig bellach yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a bod gan y nyrs berthynas dda â CAMHS yn gyffredinol. Holodd y Panel hefyd a yw CAMHS bellach wedi'i staffio'n llawn gan fod problemau wedi bod yn flaenorol o ran ceisio cael mynediad at seicolegwyr ac roedd ysgolion yn ei chael hi'n anodd yn ceisio dod o hyd i ffyrdd gwahanol o helpu plant. Roedd y Panel yn falch o weld bod CAMHS bellach ar gael i'r holl bobl ifanc a bod y gwasanaeth yn eu cyfeirio i'r lle iawn i gael help a chefnogaeth, a'u bod wedi penodi uwch-seicolegydd er mwyn iddynt adeiladu'r strwythur. Roedd y Panel yn cydnabod bod llawer o gynnydd wedi'i wneud ond nodwyd bod meysydd i'w gwella o hyd, a bod CAMHS yn ymdrechu i wella.
- Holodd y Panel am y systemau cefnogi a fyddai ar gael i berson ifanc mewn argyfwng, ac a fyddai'n cael ei atgyfeirio drwy CAMHS yn y lle cyntaf. Clywodd y Panel fod gan CAMHS wasanaeth argyfwng sy'n gweithredu rhwng 9am a 9pm a gellir cael mynediad ato drwy rif ffôn y pwynt mynediad unigol, a'r cynllun yw cynyddu'r gwasanaeth i wasanaeth 24/7 erbyn mis Mehefin 2023 fan bellaf.
- Holodd y Panel a oes cyfnod cyffredinol wedi'i bennu ar gyfer cefnogi pobl ifanc ar lyfrau achosion CAMHS, a chlywodd nad yw hyn yn gyfyngedig o ran amser a'i fod yn dibynnu ar yr asesiad cychwynnol.
- Gofynnodd y Panel a yw’r cyllid gan Lywodraeth Cymru yn cynyddu neu'n lleihau a chlywodd ei fod ar duedd i fyny o 2018/19. Ers 2019/20 mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n benodol y bydd CAMHS yn cael cyfran o'r arian i'w ddyrannu, felly mae bellach yn fwy cyfartal â'r Gwasanaethau Oedolion.
- Holodd y Panel a fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn gofynion iechyd meddwl o ganlyniad i COVID, a dywedwyd nad oes unrhyw gynnydd mawr wedi bod. Nid yw'r gwasanaeth wedi gweld y cynnydd o 30% a ragwelwyd ond mae lefelau aciwtedd wedi bod yn uwch.

## 6 Diweddariad ar y Gwasanaethau Anabledd Plant

Roedd Helen Williams, Prif Swyddog, Gwasanaethau'r Glasoed a Phobl Ifanc, yn bresennol i friffio'r Panel, a oedd yn cynnwys trosolwg o'r Tîm Anabledd Plant a newidiadau a datblygiadau diweddar sydd wedi cael eu cyflwyno. Roedd Michelle Apthorpe, Rheolwr Hwb, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd hefyd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon ac atebodd gwestiynau'r Panel.

Pwyntiau Trafod:

- Gofynnodd y Panel am y meini prawf cymhwysedd a grybwyllwyd yn adran 2.5 yr adroddiad a gofynnodd i ba raddau y mae hyn wedi newid, ac os yw nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gyfyngedig neu'n cynyddu. Hysbyswyd y Panel nad oedd y gwasanaeth yn ceisio cyfyngu ar y galw ond ei fod yn ceisio sicrhau bod y lefel gywir o gefnogaeth ar gael. Clywodd y Panel fod y tîm yn canolbwyntio llawer mwy gan eu bod yn ymdrin â phlant sydd ag anghenion uwch ac y mae angen darpariaeth arbenigol ar eu cyfer. Clywodd hefyd fod llawer o waith yn cael ei wneud gyda phlant a theuluoedd lle mae anabledd yn broblem, a bod y gwasanaeth yn ymateb yn briodol. Roedd y Panel yn falch o glywed bod llawer mwy o hyblygrwydd erbyn hyn.
- Gofynnodd y Panel am asesiadau a oedd yn benodol ar gyfer gofalwyr, a holodd a yw'r rhain yn cael eu cynnal fel mater o drefn neu a oes problemau o ran cwblhau'r asesiadau. Clywodd y Panel fod dau grŵp o asesiadau gofalwyr yn y Gwasanaethau Plant, a bod gan ofalwyr yr hawl i ofyn am asesiad annibynnol, ac yn y Tîm Anabledd Plant mae opsiwn i'r asesiad gofalwyr gael ei gynnwys yn asesiad y plentyn os yw'r teulu'n dymuno gwneud hynny. Caiff ailasesiadau eu gwneud pan fydd newid mewn amgylchiadau ac mae angen ystyried y sefyllfa eto. Mae ganddynt gynlluniau gofal hefyd sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Gofynnodd y Panel a oes llawer yn digwydd o ran y gwasanaethau dydd. Clywyd bod gofal dydd yn cael ei gynnig i blant yn ystod y gwyliau ysgol, sy'n cael ei gyflwyno ochr yn ochr â Local Aid ac Interplay, a fydd yn cefnogi ac yn darparu gweithgareddau mewn ysgolion. Clywyd hefyd fod Gweithredu dros Blant fel arfer yn gweithredu o Dŷ Laura, a'i fod yn cefnogi'r plant sy'n mynd yno, ac fel arfer nhw yw'r plant nad ydynt yn gallu ymdopi â gwasanaethau cymunedol na lleoliadau cymunedol, neu mae angen gwasanaeth arbenigol arnynt o ran gofal dydd.
  Soniodd y Panel am daliadau uniongyrchol a theimlwyd bod ychydig o bwysau ar y Gwasanaethau i Oedolion i geisio cynyddu dewisiadau pobl, ac roedd y Panel am wybod a oedd yr un peth yn wir am y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Hysbyswyd y Panel fod angen rhoi ystyriaeth ofalus iawn i daliadau uniongyrchol. Mae llawer o daliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig yn y Tîm Anabledd Plant ond maent yn cydnabod nad yw hyn o reidrwydd yn darparu'r canlyniadau maent am eu cael ar gyfer plant.

7 **Rhaglen Waith 2022-23**

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am  5.10 pm